

Sgôr RAG

Gwyrdd	Prosiectau a digwyddiadau yn unol â'r targed
---------------	--

Rhwydwaith Arddangos

Safleoedd Arloesedd	8
Safleoedd Arddangos	12
Safleoedd Ffocws (Cyfanswm Cronnus)	105

Digwyddiadau'r Rhwydwaith Arddangos

Mehefin – Awst 2018

Disgrifiad	Cyfanswm Digwyddiadau (Targed Blynnyddol)	Cyfanswm Digwyddiadau (a gynhaliwyd)	Cyfanswm nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd ers mis Hydref 2017
Digwyddiadau Safleoedd Arloesedd	32	6	42
Digwyddiadau Safleoedd Arddangos	36	18	62
Digwyddiadau Safleoedd Ffocws	54	29	74

1079 O BOBL WEDI MYNYCHU DIGWYDDIADAU'R RHWYDWAITH



Cliciwch yma am ragor o fanylion ynglŷn â phrosiectau a digwyddiadau ar ein rhwydwaith arddangos.

Prosiectau Ar fferm

Canolbwyntio ar Reoli Glaswellt a Phorthiant ar ôl yr Haf Sych Parhaus

Costau ailhadu £600-£700 yr hectar

Yn ystod diwrnod agored a gynhaliwyd ym Moor Farm, Hwlfordd, cynghorwyd ffermwyr i asesu gwreiddiau'r planhigion glaswellt cyn tybio bod y glaswellt wedi marw. Os mae'r gwreiddiau'n ystwyth ac yn gallu plygu ychydig, mae'r planhigyn wedi goroesi a bydd y glaswellt yn adfywio, gan osgoi'r angen am ailhadu costus. Ar ôl i gynhyrchiant glaswellt ar Moor Farm ostwng i ddim yn ystod y cyfnod sych, mae Andrew Rees wedi adennill y porthiant a gollwyd trwy dynnu dau badog o'r gylchred. Cafodd un ei hau gyda chymysgedd rhygwellt Eidalaid a rêp a'r llall gyda chymysgedd Westerwold a rêp. Fe brynodd gnwd o haidd y gwanwyn ar ei draed hefyd ac mae'n gobeithio cael trydydd toriad o silwair yn dilyn y glaw ym mis Awst.



Pontio'r Prinder Porthiant

Cafodd ffermwyr eu hannog i gynllunio o flaen llaw i osgoi prinder porthiant dros y gaeaf yn ystod y digwyddiad 'Pontio'r Prinder Porthiant' yn Llanfair ym Muallt. Tybir bod y cyfnod sych parhaus wedi gadael ffermydd gyda dwy ran o dair o'r porthiant sydd arnynt ei angen ar gyfer y gaeaf ar gyfartaledd a gyda disgwyl i gostau porthiant godi, mae gweithredu nawr yn hanfodol.

Eglurodd Chris Duller bod gan fuwch 650kg mewn buches sy'n lloia yn y gwanwyn fwyta tua 9kgDM y dydd. "Bydd bwydo 20 o wartheg am 150 diwrnod yn gofyn am 27,000kgDM," meddai Mr Duller. "Os mae'r silwair yn cynnwys 40% deunydd sych, mae hynny'n 67,500kg o silwair ffres, er y dylid ffactora 10% ar gyfer gwastraff, sy'n golygu bod y silwair sy'n angenrheidiol ar gyfer yr 20 o wartheg hynny ar gyfer y gaeaf yn 74,250kg. Os mae'r bymau'n 550kg ar gyfartaledd, mae hynny'n 135 o fymau.

Eglurodd hefyd sut y gellir cadw cynhyrchiant glaswellt i fynd trwy ychwanegu 30-40kgN/ha i'r caeau unwaith y bydd lefelau lleithder wedi dychwelyd i'r pridd. Dylid targedu rhygwellt a gwyndonnydd ifanc gan y bydd y rhain yn ymateb orau a chynhyrchu 600kgDM/ha yn ychwanegol trwy gydol mis Medi.



Cliciwch y Sgrin Deledu i ddysgu mwy.

Cynyddu'r Cyflenwad o Borthiant Wedi ei Dyfu Gartref Cyn y Gaeaf

Cynyddu'r cyflenwad o borthiant wedi ei dyfu gartref oedd pwyslais prosiect ar fferm Cai Haidd, Llanrwst. Yn yr un modd â llawer o ffermwyr yng Nghymru, mae Paul yn tyfu swêj fel rhan o'i gytundeb Glastir yn flynyddol, sy'n cael eu pori gan y mamogiaid cyfeb yn Ionawr a Chwefror yn ogystal â chynnig cnwd i dorri'r cylch cyn ail-hadu. Gyda chynnyrch disgwylidig o ~8000kgDM/ha mewn blwyddyn arferol, mae'n debyg y bydd y cnwd eleni yn 50% o hynny ar y gorau. Gyda gwerth porthiant o 12-13ME a 10-11% CP, mae'n borthiant drud i'w ddisodli gan ddwysfyd wedi ei brynu i mewn.

Cynghorodd Osian Jones o Oliver Seeds mai Meipen Sofl galed at y gaeaf fyddai'r opsiwn gorau er mwyn llenwi'r bwllch a dylid eu hau cyn diwedd mis Awst. "Gyda chynnyrch disgwylidig rhwng 4500-5000kgDM/ha pan gânt eu hau ym Mehefin/ Gorffennaf, dim ond tua 60% o botensial y cnwd gewch chi o'r rhai sy'n cael eu hau yn Awst, sy'n cyfateb i oddeutu~3000kgDM/ha. Ond gyda gwerth porthiant nodweddiadol o 10-11ME a 17-18% CP hefyd, mae'n ffynhonnell porthiant o safon uchel".

Canolbwyntio ar Leihau'r Defnydd o Wrthfotigau

Mae Safle Ffocws Goldsland Farm yn canolbwyntio ar ffyrdd o leihau'r defnydd o wrthfotigau o fewn y fuches laeth heb effeithio iechyd a pherfformiad y fuches. Mae'r fferm hefyd yn gweithio gyda grŵp trafod lleol er mwyn meincnodi eu canfyddiadau yn erbyn data aelodau eraill y grŵp. Y ddau faes a ganolbwyntiwyd arnynt hyd yma yw rheoli mastitis yn ystod diwedd y cyfnod llaetha a'r cyfnod sych a rheoli cloffni.

Mae faint o wrthfotigau a ddefnyddiwyd yn 2017-2018 fel a ganlyn:


	Goldsland Farm	Cyfartaledd y Grŵp
Mg/PCU (mg/Population Correction Unit)	16.7	23.2
DDD (Dos Dyddiol a Ddiffinnir)	2.9	6.1
Mg/PCU o driniaethau gwrthficrobaidd fwyaf pwysig	0.37	0.5

Canolbwyntio ar Gynllunio Rheoli Maetholion


Mae safle ffocws **Pant Du** ger Caernarfon wedi bod yn ymchwilio lefelau maetholion y pridd gyda'r nod o wella cynhyrchiant eu perllan afalau seidr. Mae'r mwyafrif o'r cnydau ffrwythau yn oddefgar i asidedd ac yn tyfu orau gyda pH oddeutu 6.2. Dangosodd canlyniadau'r samplau er bod gan un sampl pH o 6.2, roedd y rhan fwyaf yn amrywio rhwng 5.6 a 5.9. Yn dilyn hyn, y weithred gyntaf oedd ychwanegu calch er mwyn cynyddu lefelau pH y pridd a gwella tyfiant y cnwd. Dangosodd y canlyniadau bod diffyg ffosfforws, potasiwm a magnesiwm hefyd a bydd angen cywiro hyn dros gyfnod o dair blynedd gyda lefelau maetholion yn cael eu profi yn ystod y tymor tyfu, sef ar ddechrau mis Mehefin a chanol mis Awst.

Mae dadansoddi priddoedd cyn ac yn ystod y tymor tyfu ffrwythau a rheoli maetholion yn unol â hynny yn sicrhau bod maetholion digonol yn bresennol ar gyfer tyfiant y cnwd. Nid yn unig y bydd yr arferiad o brofi a dadansoddi priddoedd a gweithredu ar ganlyniadau profi pridd yn gwella cynhyrchiant, bydd yn galluogi gwell penderfyniadau rheolaeth hefyd.

Mae gwerth cynllunio rheoli maetholion wedi dod i'r amlwg yn safle ffocws The Fruit Farm, Llanfihangel Crucornau ger Y Fenni hefyd wrth iddynt edrych i wella cynhyrchiant a lleihau mewnbynnau. Y prif gnwd yw afalau ond tyfir amrywiaeth o ffrwythau meddal hefyd. Cymerwyd profion pridd i gynnwys yr holl ardaloedd tyfu a'r amrywiaeth o gnydau a dyfir.



Roedd pob un o'r 20 sampl (o'r berllan, ffrwythau meddal a llysiau) dan y targed pH a argymhellir sef 6.5 ac maent angen calch fel blaenoriaeth Cafodd lefelau ffosfforws y pridd eu profi hefyd. Y mynegai ffosfforws delfrydol ar gyfer cynnyrch cnwd yw 2 i ffrwythau a 3 i llysiau.



Roedd gan 50% o'r samplau'r mynegai cywir a rhoddwyd cyngor penodol i'r cnwd a dyfir.

Canolbwyntio ar Reoli Gwartheg Godro yn ystod y Cyfnod Sych

Pan fydd cynhyrchiant llaeth yn iŵs oherwydd bod llai o fwyd ar gael, mae'n syniad da ystyried os yw godro unwaith y dydd neu godro dair gwaith bob deuddydd (16awr) yn fwy cost effeithiol ar gyfer y fuches. Gall lleihau pa mor aml rydych yn godro wella sgor cyflwr y corff sy'n arwain at gynydd mewn cyfraddau cenhedlu. Ar y llaw arall, gall hyn gael effaith negyddol ar gyfrifon celloedd somatig a bydd angen i gynhyrchwyr gadw llygad barcud ar os yw hyn effeithio ar eu contractiau llaeth.

Prosiect Porfa Cymru

Mae manteision recordio a monitor tyfiant glaswellt wedi profi eu gwerth yr haf hwn, gan alluogi ffermwyr i gynllunio eu stoc porthiant gyda chyflenwad glaswellt cyfyngedig. Gan ddefnyddio'r wybodaeth i reoli porthiant ynghyd â difa strategol, mae un o unedau llaeth Prosiect Porfa Cymru wedi osgoi defnyddio gormod o'i porthiant ar gyfer y gaeaf. Ar ddiwedd mis Gorffennaf roeddent wedi cyrraedd sefyllfa i gau padogau er mwyn cael toriad silwair ychwanegol.

Dyddiad	Gorchudd cyfartalog ar y fferm KgDM/Ha	Twf KgDM/Ha/ Diwrnod	Glaswellt sy'n cael ei fwydo KgDM/pen	Dwysfwyd sy'n cael ei fwydo KgDM/pen	Silwair sy'n cael ei fwydo KgDM/pen	Nodiadau
11/06/18	2112	77	17	1	0	
18/06/18	2007	52.4	14	4	0	
22/06/18	2035	66.1	14	4	0	
28/06/18	2030	51.1	13	4.5	0	Difa
03/07/18	1982	45.4	10	5	2	
10/07/18	1844	20.5	8	5.5	4	Difa
16/07/18	1838	27/1	8	5.5	4	
24/07/18	1908	30.6	8	5.5	4	
31/07/18	2058	48.6	12	5.5	2	Padogau wedi'u cau ar gyfer silwair

Un fantais o lefelau uchel o ddeunydd sych yn y glaswellt yw bod modd bodloni anghenion y fuwch er gwaetha'r gorchudd cae is. Dangosodd ddadansoddiad o'r glaswellt ym mis Mehefin DM% o 28.2 o'i gymharu â 18% ym mis Mai. Byddai angen i fuwch 600Kg sydd angen 18Kg o DM y Dydd yn cynnwys 3kg/DM o ddwysfwyd a 15kgDM o laswellt fwyta 83.3kg o laswellt Pwysau Ffres (FW) y diwrnod gyda 18% o Ddeunydd Sych. Ond, pe byddai'n bwyta'r glaswellt wedi samplu uchod, byddai ond angen iddi fwyta 53.2 KgFW. Mae'r ffigurau hyn a gasglwyd trwy Prosiect Porfa Cymru yn dangos sut y gall samplu rheolaidd helpu ganfod y lefelau angenrheidiol o ychwanegiadau. Mae adroddiad y labordy yn dangos bod y lefelau protein ac egni yn dda a bod lefelau Ffeibr Glanedol Niwtral (NDF) yn ddigon uchel i alluogi ychwanegiadau pellach er mwyn cyflawni cynnyrch llaeth da

Cliciwch [yma](#) i ddysgu mwy.

Cyfathrebu'r Canlyniadau

Mae cyfathrebu canlyniadau'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y rhwydwaith arddangos yn hanfodol. Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio dulliau amrywiol i sicrhau bos cymaint o bobl â phosibl yn derbyn yr wybodaeth sy'n deillio o'r prosiectau, gan gynnwys:

- **Erthyglau:** 15 wedi'u creu
- **Blogiau a Flogiau** i gynnig diweddariadau o'r safleoedd – mae 4 wedi'u creu
- **Cyfringau Cymdeithasol**
Diweddariadau Facebook: 50
Diweddariadau Twitter: 547
- **Fideos** 7
- **Ymweliadau â'r wefan**
Safleoedd Arloesedd: saesneg 196, cymraeg 32
Safleoedd Arddangos: saesneg 362, cymraeg 52
Safleoedd Ffocws: saesneg 980, cymraeg 196

